# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 16 Tachwedd 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(30)

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Gofynnwyd y 13 cwestiwn cyntaf.  Atebwyd cwestiwn 2 gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau.

**14.19**
### 2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Gofynnwyd y 7 cwestiwn.

**14.36**
### 3. Cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog yn dilyn y refferendwm ar bwerau'r Cynulliad

**NDM4849 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog yn dilyn y refferendwm ar bwerau'r Cynulliad – Gorchmynion adran 109' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Tachwedd 2011;

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog, fel y nodir yn Atodiad B o Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**14.37**
### 4. Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2012/13

**NDM4851 Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.16:

Yn cytuno ar gyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2012-13, fel y pennir yn Nhabl 5 o'r ddogfen "Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cynigion Cyllideb Comisiwn y Cynulliad 2012-13", a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 9 Tachwedd 2011 a'i bod yn cael ei hymgorfforі yn y Cynnig Cyllideb Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26(ii).

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**14.46**
**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4852 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i helpu'r sector preifat yng Nghymru i dyfu;

2. Yn annog Llywodraeth Cymru i wella'r amodau ar gyfer twf economaidd yng Nghymru drwy:

a. gwella seilwaith a sgiliau;

b. darparu eglurder ar gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r economi;

c. hybu mewnfuddsoddiad i Gymru a chefnogi allforion Cymru; a

3. Yn nodi y bydd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys i gael arian Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd am y trydydd tro.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 13 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**15.53**
**6. Dadl Plaid Cymru**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4850 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cadarnhau targedau 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' a 'Strategaeth Cymru ar Newid yn yr Hinsawdd' ac yn croesawu'r cyfraniad nodedig at gyrraedd y targedau hyn gan y Ganolfan Dechnoleg Amgen yn ei strategaeth ar gyfer 'Prydain Di-garbon 2030'; ac

2. Yn galw ar Weinidogion Cymru i lansio ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus ar newid yn yr hinsawdd hyd at Gynhadledd Rio+20.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 36 | 12 | 5 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**16.57**
**Cyfnod Pleidleisio**

**16.59**
**7. Dadl Fer**
**NDM4853 Lynne Neagle (Tor-faen):**

Tynnu'r plwg - Effaith torri'r tariff cyflenwi trydan yng Nghymru

Daeth y cyfarfod i ben am 17.21

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mawrth, 22 Tachwedd 2011**